**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod hybrid y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 12 Mawrth 2024 am 5.00pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd W Hughes | Y Cynghorydd S Powderhill |
| Y Cynghorydd J Turner | Y Cynghorydd T Williams |

**Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr O Williams, Uwch Gyfreithiwr – Materion Ymgyfreitha

**55 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Powell ac A O Rogers.

**56 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**57 DEDDF HAWLIAU DYNOL A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**58 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2024 yn rhai cywir.

**59 TRAFOD TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 15.01.24 - 25.02.24**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 15 Ionawr 2024 a 25 Chwefror 2024 i'r Aelodau.

**60 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**61 TRAFOD Y CEISIADAU CANLYNOL AR GYFER TRWYDDEDU A/NEU GOFRESTRU:**

Rhoddodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion y cais canlynol ar gyfer adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi'u mabwysiadu, cafodd Mr OD ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais.

**62 CRYNODEB GORFODI (GAN GYNNWYS DATA APELIADAU/ERLYNIADAU) AR GYFER Y CYFNOD: 15.01.24 - 25.02.24**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 15 Ionawr 2024 a 25 Chwefror 2024.

**63 CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 15.01.24 - 25.02.24**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 15 Ionawr 2024 a 25 Chwefror 2024.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.10pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**

.